| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Crëwyd:** | 25/05/18 |
| **Dyddiad yCyhoeddwyd:** | 25/05/18 |
| **Rhif y Fersiwn:** | 1.00 |

| | |
|---|---|
| **Man Gwasanaeth:** | Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden |
| **Maes Gwaith:** | Hamdden |
| **Manylion cyswllt:** | Andrea Taylor<br>www.leisure.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | The Retention People' – Arolwg 'NPS |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio gwybodaeth bersonol mewn perthynas ag Arolwg 'Net Promotor Score' |

# Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

## Pwrpas a sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio'ch gwybodaeth

### Pwrpas y brosesu

Bydd Gwasanaethau Hamdden Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio manylion cyswllt ei gwsmeriaid i gysylltu â chwsmeriaid drwy e-bost at ddibenion cael adborth gan gwsmeriaid er mwyn gwella gwasanaethau a safonau.

### Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu

Rydym yn dibynnu ar ddarpariaethau Diogelu Data i brosesu eich gwybodaeth fel y manylir isod:

Er mwyn prosesu data personol i fod yn gyfreithlon o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016, rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliadau, a amlinellir isod:

Os oes angen prosesu at ddibenion y buddiannau cyfreithlon a ddilynir gan y rheolwr neu gan drydydd parti, ac eithrio pan fo buddiannau o'r fath yn cael eu diystyru gan fuddiannau neu hawliau a rhyddid sylfaenol gwrthrych y data sy'n gofyn am ddiogelu data personol, yn enwedig lle mae gwrthrych y data yn blentyn.

## Pwy fydd â mynediad at eich gwybodaeth

### Enwau'r Rheolwr Data a'r Swyddog Diogelu Data

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol / Swyddog Diogelu Data

Email: diogeludata@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolwyr Data Eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r Man Gwasanaeth i gael rhagor o wybodaeth.

### Manylion prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth

Prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth fydd Timau Rheoli Hamdden sy'n gyfrifol am y Canolfannau Hamdden a'r System Cerdyn Smart yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

### Ceisiadau am wybodaeth

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gofnodir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os yw'r wybodaeth a ddarperir gennych yn ddarostyngedig i gais o'r fath, lle bo modd, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi am ei rhyddhau. Os ydych yn gwrthwynebu rhyddhau'ch gwybodaeth, byddwn yn atal eich gwybodaeth os yw'r ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu.

## Pa mor hir y byddwn yn cadw'ch gwybodaeth

### Manylion y cyfnod cadw

Pa mor hir mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arfer gorau.

Bydd gwybodaeth yn cael ei chadw cyhyd â'ch bod yn dal i fod yn ddeilydd Cerdyn Smart dilys.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno )

### Eich hawliau o dan y Diogelu Data

Mae Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i wrthrych y data (y rhai y mae'r wybodaeth amdanynt):

- Hawl mynediad y gwrthrych - Mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Gais Gwrthrych am Wybodaeth
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i unioni
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu prosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gyfyngu prosesu
- Hawliau ynghylch gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar: www.ico.org.uk.

I ddeddfu eich hawliau, cysylltwch â'r man gwasanaeth a nodir ar frig y ffurflen hon.

### Y Weithdrefn Cwyno

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch

cais / gwybodaeth, mae gennych hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Man Gwasanaeth a fanylir ar frig y ddogfen hon sy'n amlinellu'ch materion.

Os ydych chi'n dal yn anfodlon, mae gennych hawl hefyd i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dilynwch y ddolen hon i gael rhagor o wybodaeth am y broses gwyno.

http://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-ofinformation/Questions-and-complaints?lang=cy-gb